PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 3 MAWRTH 2020

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Patel(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Derbyshire, Owen Jones, Lancaster, Jackie Parry, Parkhill, Owen, Wong a/ac Wood |

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

2 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

3 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2020 gan y Pwyllgor fel cofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

4 : MONITRO PERFFORMIAD CHWARTEROL - CHWARTERI 1 A 2, 2019/20

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi cyfle i'r Aelodau adolygu'r adroddiadau perfformiad sy'n berthnasol i'r cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor ar gyfer chwarter 1 (Ebrill-Mehefin 2019) a chwarter 2 (Gorffennaf-Medi 2019). Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod Rheoli Gwastraff wedi'i drosglwyddo i'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Chymunedau ym mis Awst 2019.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y Cyngor wedi cytuno ar Gynllun Corfforaethol 2019-22 ym mis Chwefror 2019. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi amcanion lles, blaenoriaethau allweddol a dangosyddion perfformiad allweddol y Cyngor. Mae'r fframwaith rheoli perfformiad yn cynnwys cynhyrchu cynhyrchiad chwarterol o Adroddiad Cyflawni Uchelgais Prifddinas 2019-20 ar gyfer y Cabinet. Cyfeiriwyd at yr adrannau yn yr adroddiad perfformiad sy'n berthnasol i'r Pwyllgor yn yr adroddiad clawr.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol; Andrew Gregory, Cyfarwyddwr a Matt Wakelam, Cyfarwyddwr Cynorthwyol i'r cyfarfod. Gwahoddwyd y swyddogion i roi cyflwyniad ar adroddiadau perfformiad Ch1 a Ch2.

Cafodd yr Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ychwanegol ynghylch y cynigion ar gyfer cynlluniau teithio llesol mewn ysgolion. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr awdurdod yn bwriadu cyflwyno cynlluniau teithio llesol ar gyfer cerdded a beicio ym mhob ysgol. Bydd hyn yn galw am fuddsoddi mewn seilwaith beicio, megis raciau beiciau. Bydd ysgolion newydd yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau.

Bydd cysylltiadau hefyd â llwybrau beicio ar wahân a darpariaeth feicio arall.

- Nododd yr Aelodau ei bod yn annhebygol y byddai targed ailgylchu Llywodraeth Cymru yn cael ei gyrraedd. Gofynnodd yr Aelodau beth fyddai'r gosb ariannol debygol ar sail y rhagamcanion cyfredol ac a fyddai Llywodraeth Cymru yn ei gorfodi ai peidio. Dywedodd swyddogion y byddai argymhelliad yn cael ei roi i'r Gweinidog gan weision sifil ac y byddai'r Gweinidog yn penderfynu a ddylid defnyddio'r gosb. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a WRAP i gyflawni cyfradd ailgylchu o 70% yn y tymor hwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn ffurfio ei barn ei hun ond ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill i geisio sicrhau ailgylchu o 64%. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod 30% o stoc tai'r ddinas yn fflatiau heb unrhyw gyfleusterau ar gyfer gwahanu ailgylchu. O ran unrhyw rwymedigaethau, mae'r Cyngor yn gallu dangos ei fod yn gwybod pam nad yw targedau ailgylchu yn cael eu cyrraedd. Er enghraifft, effaith gwastraff masnach ar y targed ailgylchu yw -1.7%.

- Gofynnodd yr Aelodau pryd fyddai'r orsaf fysus newydd yn weithredol. Nododd Aelodau hefyd fod 46.6% o deithiau yn deithiau nad ydynt mewn car. Gofynnodd yr Aelodau hefyd a oedd swyddogion yn hyderus y byddai'r newid moddol 50/50 yn cael ei gyflawni. Cynghorodd swyddogion y byddai'r orsaf fysus yn weithredol ganol 2022, yn amodol ar drafodaethau contract. O ran newid moddol, bydd cyflawni gwelliannau sylfaenol fel traffyrdd beicio a gorsafoedd bws newydd yn darparu 'newid graddol'.

- Nododd yr Aelodau mai'r targed ar gyfer cynlluniau teithio llesol mewn ysgolion oedd 40%. Gofynnodd yr Aelodau sut y cyrhaeddwyd y targed a ph'un a oes meini prawf penodol ar gyfer cynlluniau teithio llesol i ysgolion, megis gwahardd mannau gollwng yn uniongyrchol y tu allan i ysgolion. Gofynnodd yr Aelodau hefyd a oes arian ychwanegol wedi'i glustnodi er mwyn sicrhau bod ysgolion presennol yn cyrraedd y safon. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai hyn yn dibynnu ar natur y cynllun a gyflwynir gan yr ysgolion. Mae rhywfaint o unigoliaeth. Mae cynllun peilot wedi gwahardd cerbydau o flaen yr ysgol. Os bydd hynny'n llwyddiannus, efallai y caiff ei gyflwyno'n ehangach. Gellir gwneud cais am gyllid fel rhan o geisiadau o dan y Gronfa Trafnidiaeth Leol.

- Ceisiodd yr Aelodau egluro'r canlyniadau ar gyfer mesur glendid strydoedd. Dywedodd un Cynghorydd fod ei ward yn dioddef o niwsans a achosir gan y ffaith fod sachau sbwriel yn agor yn ystod Ch1 Ebr – Meh. Roedd yn synnu, felly, fod glendid strydoedd yn gwella yn Ch1 o Ch3. Dywedodd swyddogion fod strydoedd yn cael eu harchwilio bob 3 mis, 6 mis a 12 mis gan ddibynnu ar nifer yr ymwelwyr. Gall nifer o ffactorau effeithio ar lendid yn cynnwys y tywydd a lefelau salwch staff.

- Nododd yr Aelodau fod nifer yr adroddiadau ar dipio anghyfreithlon yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlenni yn uwch yn Ch1. Nododd swyddogion fod y ganran yn cynrychioli nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a gliriwyd neu a orfodwyd o fewn amserlenni ac nid yw'n cynrychioli'r ffigur gwirioneddol o achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd.

- Cytunodd swyddogion i ddarparu ffigurau wedi'u diweddaru ynglŷn â lefelau salwch presennol a rhagamcanol y staff o fewn y Gyfarwyddiaeth.

- Cefnogodd y Pwyllgor dargedau mwy uchelgeisiol ar gyfer nifer y casgliadau a fethwyd, efallai o ran cyfanswm nifer yr aelwydydd yr effeithir arnynt neu gyfanswm y tunelledd.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y cynnydd mewn camau gorfodi yn deillio o adrodd yn well neu o ganlyniad i gynnydd mewn troseddau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod technoleg newydd bellach yn nodi lle mae gwastraff yn cael ei gyflwyno ar ôl i weithwyr gwastraff ymweld â stryd. Bydd y staff yn y tîm 'sticer pinc' yn ceisio addysgu ac annog preswylwyr i newid eu hymddygiad cyn symud ymlaen i gamau gorfodi.

- Gofynnodd yr Aelodau faint o hyblygrwydd a ganiateir i weithredwyr o ran cymhwyso'r cynllun 'sticer pinc'. Roedd Aelod yn cofio digwyddiad lle na fyddai ei fin gwastraff gardd yn cael ei gasglu am fod rhywun wedi rhoi diod ynddo. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod dros 200 o staff wedi cael eu hyfforddi. Maent wedi'u gwneud yn ymwybodol o'r broblem sbwriel a achosir gan bobl sy'n pasio. Ni ddylid rhoi sticer pinc o dan yr amgylchiadau hynny. Dim ond pan fydd halogiad sylweddol y dylid defnyddio'r sticeri pinc.

- Nododd yr Aelodau fod Caerdydd yn yr 16eg safle yng Nghymru o ran arolygiadau hylendid bwyd. Gofynnodd y Pwyllgor sut roedd Caerdydd yn cymharu â Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod gan Gaerdydd drosiant sylweddol uwch o fusnesau newydd a bod y galw yn fwy na'r awdurdodau eraill. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod gwahaniaeth enfawr o ran nifer y busnesau bwyd.

- Cadarnhaodd swyddogion y bydd cynlluniau parhad busnes yn cael eu cychwyn pe bai achos o'r coronafeirws. Mae'r cynlluniau'n cael eu hadolygu ac mae trafodaethau'n parhau gyda chydweithwyr undeb.

PENDERFYNWYD – bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn cyfleu unrhyw sylwadau ac argymhellion a wnaed o ran y ffordd ymlaen.

5 : YMATEB Y CABINET I ADRODDIAD O'R ENW 'SBWRIEL A THIPIO ANGHYFREITHLON YNG NGHAERDYDD' GAN Y PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL.

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad gorchwyl a gorffen o'r enw 'Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon yng Nghaerdydd'. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cabinet ar 13 Mehefin 2019 a chytunwyd ar ymateb llawn gan y Cabinet ar 10 Hydref 2019. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar ymateb y Cabinet i adroddiad yr ymchwiliad gorchwyl a gorffen.

Gwnaeth yr adroddiad gorchwyl a gorffen gyfres o ganfyddiadau allweddol a chyfanswm o 68 o argymhellion. O'r argymhellion hynny derbyniwyd 57, derbyniwyd 10 yn rhannol a gwrthodwyd un. Seiliwyd y canfyddiadau a'r argymhellion allweddol ar 11 thema, a nodwyd y manylion yn yr adroddiad.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Ailgylchu, Strydoedd Glân a'r amgylchedd; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol,

Pobl a Chymunedau; a Matt Wakelam, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Strydlun i'r cyfarfod.

Agorodd y Cadeirydd ddadl ar yr eitem hon. Cafodd Aelodau wahoddiad i wneud sylwadau, gofyn cwestiynau neu geisio eglurhad pellach am yr adroddiad. Mae’r drafodaeth wedi ei chrynhoi fel a ganlyn:

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad pellach o'r cynlluniau i gyflwyno Tîm Gorfodi penodol. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod Swyddogion Gorfodi yn gallu gorfodi amrywiaeth o faterion, o raddfa fach, megis taflu sbwriel a gwm cnoi, i raddfa fwy, megis gwastraff adeiladu a chwmnïau nad oes ganddynt gontract gwastraff ar waith. Byddai ffocws ar sut i hyfforddi swyddogion eraill ar draws meysydd gwasanaeth i orfodi cosbau penodedig o ran sbwriel er mwyn cael ymagwedd fwy cyfannol ac i ganiatáu mwy o gapasiti i Swyddogion Gwastraff fynd i'r afael â materion mwy difrifol a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn fwy effeithlon. Byddai'r Tîm Gorfodi yn cynnwys cyfuniad o staff presennol, megis gofalwyr a swyddogion gorfodi tai.

- Dywedodd swyddogion fod y gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phroblem gollwng sbwriel o geir a cherbydau eraill. Ar hyn o bryd, os yw pobl yn taflu sbwriel o gerbydau, gall y Cyngor ysgrifennu at y ceidwad cofrestredig. Fodd bynnag, os bydd y ceidwad cofrestredig yn methu ag ymateb, yna nid oes unrhyw beth arall y gall yr awdurdod ei wneud. Cydnabu swyddogion fod taflu sbwriel o geir yn fater o bwys yng Nghaerdydd. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod clirio sbwriel o lwybrau cyflymder uchel yn beryglus a bod staff y gofynnir iddynt gyflawni'r ddyletswydd hon yn cael eu peryglu. Cyflwynwyd deddfwriaeth newydd yn Lloegr i fynd i'r afael â'r broblem benodol hon. Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn dilyn ei hesiampl wrth i bapurau trafod gael eu drafftio. Gofynnodd yr Aelodau a oedd y Cyngor wedi gwneud sylwadau o blaid y cynnig. Dywedodd swyddogion fod llythyr o gefnogaeth wedi'i anfon ond efallai ei bod yn bryd i'r Arweinydd neu'r Cabinet wneud sylwadau mwy ffurfiol.

- Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y Cabinet yn derbyn argymhellion yn ymwneud â gwirfoddoli. Gofynnwyd i swyddogion amcangyfrif faint o amser y byddai'n ei gymryd i weithredu'r argymhellion. Dywedodd swyddogion fod cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu ac y byddai manylion yn cael eu cynnwys. Fodd bynnag, mae rhai o'r argymhellion eisoes wedi'u cyflawni.

- Cynghorodd swyddogion fod yr awdurdod yn ceisio sefydlu grŵp trosfwaol sydd â'r nod o gefnogi grwpiau lleol, llai o wirfoddolwyr. Byddai'r grwpiau ar y cyd yn cyfarfod yn chwarterol er mwyn darparu fforwm i rannu syniadau a thrafod arfer gorau. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi nad oedd yr ymgyrch 'Carwch Eich Cartref' yn ymwneud â chasglu sbwriel yn unig. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyllid ar gyfer mannau gwyrdd y gall Cynghorau Cymuned wneud cais amdanynt. Byddai swyddogion yn hoffi gweld mwy o fusnesau yn cymryd rhan yn yr ymgyrch 'Carwch Eich Cartref'.

- Roedd yr Aelod Cabinet am ddiolch yn gyhoeddus i aelodau Grŵp Afonydd Caerdydd a gwirfoddolwyr eraill am eu hymdrechion, yn enwedig mewn perthynas â'u help i adfer Parc Bute yn dilyn y llifogydd diweddar. Cadarnhaodd swyddogion y bydd swydd cydlynydd gwirfoddolwyr parhaol yn

cael ei sefydlu.

- Gofynnodd yr Aelodau i swyddogion roi mwy o eglurder o ran yr argymhellion hynny a dderbynnir yn rhannol.  Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol y byddai'r Cynllun Gweithredu yn rhoi eglurder.

- O ran ailsgilio/hyfforddi, roedd aelodau o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe bai Staff Parciau yn cael pwerau gorfodi i atal gwastraff cartref rhag cael ei ddympio mewn biniau parciau.

- Gofynnodd Aelod a ellid gwneud mwy i hyrwyddo 'Ap Caerdydd' i drigolion presennol a newydd yn y ddinas.  Er enghraifft, gellid hyrwyddo'r ap ar lythyrau Treth Gyngor sy'n cael eu hanfon i bob cartref ar hyn o bryd.  Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod mwy o gyfleusterau'n cael eu hychwanegu at yr ap a bod y systemau digidol i gefnogi'r ap ar waith.  Mae'r holl ddata a dderbynnir o'r ap yn cael ei gyfuno ac unwaith y bydd problem yn cael ei hadrodd drwy'r ap fe ymdrinnir â hi.

- Gan gyfeirio at argymhellion 27, 28 a 30 – awgrymodd yr Aelodau y gallai biniau sbwriel fod â Chod QR arnynt y gellid ei sganio drwy gyfrwng Ap Caerdydd ac adrodd eu bod yn llawn.  Roedd swyddogion yn croesawu'r syniad.  Gofynnodd Aelodau hefyd a allai biniau sbwriel ym mhob rhan o'r ddinas gael cynwysyddion ar wahân ar gyfer deunydd ailgylchadwy.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd cyfleusterau ailgylchu dros dro mewn blociau o fflatiau yn ymarferol.  Dywedodd yr Aelod Cabinet fod hyn wedi'i dreialu, ond arweiniodd at ormod o halogi.  Cydnabuwyd bod angen darparu cyfleusterau dros dro o'r fath mewn mannau a reolir, megis hybiau.

- Gofynnodd yr Aelodau a wnaed unrhyw gynnydd mewn perthynas â'r bwriad i symud i wythnos waith dreigl o 4 diwrnod; a fu unrhyw ymgynghori â'r undebau ac a oes cefnogaeth i'r cynnig mewn egwyddor.  Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol agos ynghylch y dull i'w gymryd ac y bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Dywedodd yr Aelod Cabinet y bydd y cynigion yn cael eu cytuno gan yr holl randdeiliaid ac y byddant yn moderneiddio'r gwasanaeth er mwyn gwella’r ddinas.

PENDERFYNWYD – bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn cyfleu unrhyw sylwadau ac argymhellion a wnaed o ran y ffordd ymlaen.

## 6 : NODYN BRIFFIO I AELODAU: TÂN GWYLLT

Derbyniodd y Pwyllgor bapur briffio ar dân gwyllt, a’r heriau y maent yn eu cyflwyno, ac awgrymodd gamau gweithredu ar gyfer rheoli'r materion hynny yn well. Rhoddodd yr adroddiad gyfle i'r Aelodau benderfynu a ddylid cynnwys y pwnc ar flaenraglen waith y Pwyllgor.

Roedd y Pwyllgor o'r farn mai pwerau cyfyngedig sydd gan y Cyngor mewn perthynas â thân gwyllt.  Yr unig ddewisiadau amlwg sydd ar gael i'r Cyngor yw cyfyngu ar ddefnydd o dir y cyngor a chyfleoedd hyrwyddo.  Gofynnodd yr Aelodau

am gadarnhad o'r graddau yr oedd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio, ac awgrymwyd y gallem ofyn am eglurhad.

Penderfynodd y Pwyllgor fonitro'r mater hwn a rhoi rhagor o wybodaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 7 : NODYN BRIFFIO I AELODAU: ADOLYGIAD LLAWN O GYNLLUN DATBLYGU LLEOL CAERDYDD - YSTYRIED Y DIWYGIADAU ARFAETHEDIG A GYFLWYNWYD YNG NGHYFARFOD Y CYNGOR AR 28 TACHWEDD 2019

Cafodd y Pwyllgor bapur briffio a oedd yn rhoi cyfle i adolygu cynnwys adroddiad y Cabinet dan y teitl 'Adolygiad Llawn o Gynllun Datblygu Lleol Caerdydd – ystyried Diwygiadau a Gyflwynwyd yng Nghyfarfod y Cyngor ar 28 Tachwedd 2019'.

Roedd aelodau o'r farn mai elfen allweddol yr adroddiad o ran craffu oedd y trefniadau traws-bwyllgor ar gyfer craffu ar y mater. Cytunodd yr Aelodau y dylid trafod y mater hwn yn y Fforwm Cadeiryddion Craffu.

## 8 : PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL – RHAGLEN WAITH 2019/20

Trafododd y Pwyllgor Raglen Waith 2019/20. Dywedodd y Prif Swyddog Craffu y bydd y Cabinet yn derbyn yr adroddiad 'Caerdydd Un Blaned' ar 2 Ebrill 2020. Bydd yr adroddiad yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor mewn ymateb i argyfwng yr hinsawdd. Mae'r adroddiad yn un 'coch' a byddai'n darparu digon o gynnwys ar gyfer gwaith craffu defnyddiol.

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal cyfarfod ychwanegol ar 1 Ebrill 2020.

Gofynnodd y Prif Swyddog Craffu a oes gan Aelodau unrhyw feysydd neu faterion penodol i ganolbwyntio arnynt ar gyfer rhaglen waith 2020/21. Gwahoddwyd yr Aelodau i anfon awgrymiadau drwy e-bost at y Prif Swyddog Craffu.

## 9 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim

## 10 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhoddwyd gwybod i’r aelodau y byddai cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu’r Amgylchedd yn cael ei gynnal ar 1 Ebrill 2020.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.35 pm